Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 33 Hydref 2015




**Calonogwch eich gilydd**

(o'r chwith: Bale, Morris, Hennessey, Ledley)

*Annwyl ffrindiau,*

Bydd rhai ohonoch yn gwybod i mi dreulio ychydig ddyddiau ar ynys Cyprus yn ddiweddar. Gwlad fechan yn nwyrain y Môr Canoldir yw Cyprus gyda phoblogaeth o 1.1 miliwn. Mae'r ynys wedi'i rhannu'n ddwy wladwriaeth – gwladwriaeth y de sy'n Gristnogol ac yn Roeg ei hiaith a gwladwriaeth y gogledd sy'n Foslemaidd ac yn Dwrceg ei hiaith. Rhaid i mi gyfaddef nad ei hanes hir a chyfoethog oedd y prif reswm dros fy ymweliad â'r wlad, ond y ffaith fod gêm bêl-droed go bwysig yn cael ei chwarae yno. Er hynny, cefais cyfle amheuthun yn ystod fy arhosiad yng Nghyprus i ddilyn ôl traed rhai o apostolion yr Arglwydd Iesu, oherwydd i'r ynys hon yr aeth Paul gyntaf ar ei daith genhadol gyntaf tua 45 O.C. Cydymaith iddo ar y daith oedd Iddew o'r enw Barnabas, gŵr a anwyd yng Nghyprus ac un y dywedir amdano yn Llyfr yr Actau ei fod 'yn ddyn da, yn llawn o'r Ysbryd Glân ac o ffydd' (Actau 11:24). Yn gynorthwywr iddynt hefyd ar y daith yr oedd Ioan Marc, a ddaeth ymhen blynyddoeddd wedi hynny yn awdur yr efengyl sy'n dwyn ei enw.

Prin yw'r wybodaeth ysgrythurol sydd gennym am ymweliad y tri apostol â'r ynys, ond o ddarllen yr hanes yn Actau 13, adnodau 5–13, a chan ddefnyddio'r dystiolaeth archaeolegol ddiweddaraf a phwyso ar draddodiad lleol, mae'n bosibl olrhain eu siwrne ar draws yr ynys yn weddol gywir.



Ar ôl glanio yn Salamis ar ochr ddwyreiniol yr ynys a phregethu yn y synagogau yno, mae'n bur debyg i'r apostolion fynd yn eu blaenau o ddinas i ddinas ar hyd y ffordd Rufeinig ddeheuol nes cyrraedd Paffos, prif ganolfan y llywodraeth Rufeinig ar yr ynys. Yno daethant ar draws Elymas (neu Bar-Iesu), rhyw ddewin a gau-broffwyd o Iddew, a geisiodd eu rhwystro rhag cyfarfod y rhaglaw Rhufeinig Sergius Paulus. Yn ôl traddodiad lleol, llwyddodd Elymas i lusgo Paul i'r synagog, ei glymu wrth biler, a'i chwipio.



**Y Piler lle cafodd Paul ei chwipio.**
**'Pumwaith y cefais ar law'r Iddewon y deugain llach ond un.'**
**(2 Corinthiaid 11:24)**

**Adeiladwyd yr eglwys a welir yn y llun yn y 13eg ganrif**
**ar hen adfeilion y basilica Bysantaidd cynnar.**

(Lluniau o wefan RingofChrist.com)

Ond er ceisio'i orau, ni lwyddodd Elymas i atal Sergius Paulus rhag cyfarfod â'r apostolion. Yn ystod y cyfarfyddiad hwn y trawyd Elymas yn ddall, adlais o brofiad Paul ei hun, ac y cafodd Sergius Paulus dröedigaeth i'r Ffydd Gristnogol. Ar ôl hyn hwyliodd yr apostolion o Paffos i Perga yn Pamffylia (sydd yng ngwlad Twrci heddiw) gan barhau ar eu taith genhadol.

Yn naturiol, fel un a anwyd yng Nghyprus, Barnabas ac nid Paul yw prif arwr Cristnogion Cyprus heddiw ac ef yw nawddsant y wlad. Nid Barnabas oedd ei enw go iawn, ond Joseff. Cyfenw oedd Barnabas a roddwyd iddo gan ei gyd-apostolion, ac ystyr yr enw hwnnw oedd 'Mab Anogaeth'. Bob tro y cyfarfyddwn â Barnabas yn Llyfr yr Actau, cawn ef yn ceisio annog neu ysbrydoli eraill. Ef oedd y cyntaf yn yr eglwys yn Jerwsalem i gefnogi gweinidogaeth Paul ar ôl ei dröedigaeth ac ef a gyflwynodd Paul hefyd i'r cylch o apostolion yno. Ond yn fwy na dim, amlygodd Barnabas ei hun fel yr un a roddodd anogaeth i Ioan Marc pan wrthodai Paul gymryd y dyn ifanc yn gydymaith iddo ar ei ail daith genhadol (Actau 15: 36-41). O ganlyniad, ymwahanodd Barnabas a Paul ac aeth Barnabas yn ei ôl i Gyprus gan gymryd Marc gydag ef. Barnabas, ac nid Paul, oedd yr un roddodd elfen o obaith ac ysbrydoliaeth i Marc gan ddangos ei fod yn credu ynddo.

Un o'r bendithion mwyaf y gall unrhyw un ei chael yw'r ddawn i ysbrydoli a chael y gorau allan o eraill. Ac wrth wylio campau Gareth Bale ar y cae pêl-droed yn Nicosia y nos Iau honno ar ddechrau Medi, roedd hi'n amlwg pa mor allweddol oedd ei bresenoldeb. Er ei athrylith anhygoel, llwyddai ar bob gafael i ysbrydoli ei gyd-chwaraewyr o Gymru a'u cael i gredu eu bod am gipio'r fuddugoliaeth.

Mae'r Eglwys hithau ym mhob oes wedi dibynnu ar bobl sy'n barod i gefnogi a chalonogi. Efallai na fyddai wedi tyfu a datblygu yn y modd y gwnaeth heb gymeriadau ac arweinwyr cryfion fel Paul. Ni fyddai ychwaith wedi goroesi heb 'ferched a meibion anogaeth' fel Barnabas.

Yr eiddoch yng Nghrist,
*Wyn Morris* (Bugail)

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c*


| | |
|---|---|
| 3 Hydref | Cyfarfod Blynyddol Chwiorydd<br>Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Capel Wystog am 2.30 o'r gloch<br>'Fy nghysylltiad â'r Genhadaeth yng<br>Ngogledd yr India' – Mrs Bethan Richards |
| 11 Hydref | Oedfa Ddiolchgarwch yr Ofalaeth<br>dan arweiniad y Bugail<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch<br>Casgliad tuag at Water Aid |
| 26 Hydref | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 pm |
| 13 Rhagfyr | Oedfa Gymun Nadolig yr Ofalaeth<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch<br>Casgliad tuag at ginio Nadolig elusennol Aberystwyth |
| 25 Rhagfyr | Oedfa gymun deuluol ar fore'r Nadolig<br>yng Nghapel y Garn dan arweiniad y Bugail<br>am 9 o'r gloch |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

# Tudalen y Plant

Ydych chi'n gwybod 'Gweddi'r Arglwydd' – y weddi enwog ddysgodd Iesu i'w ddisgyblion ddwy fil o flynyddoedd yn ôl? Dyma gyfle i'w dysgu drwy lenwi'r bylchau (o'r llyfr *Beibl Gweithgaredd Bywyd Iesu*, addasiad Eleri Huws).



CWBLHAU'R WEDDI

Llanwch y blychau isod â'r geiriau coll. Fedrwch chi wneud hynny heb edrych ar y copi?

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy ... 1

Deled dy deyrnas, gwneler dy ... 2 megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.

Dyro i ni heddiw ein ... 3

A maddau i ni ein dyledion, fel y ... 4 ninnau i'n dyledwyr.

Ac nac arwain ni i ... 5 eithr gwared ni rhag drwg.

Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r ... 6 a'r gogoniant,

yn oes oesoedd ... 7

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **31 Hydref**.

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Llongyfarchiadau i **Morgan Lewis**, Ysgol Sul Pen-llwyn, enillydd tasg y rhifyn diwethaf, a diolch i Ysgol Sul Pen-llwyn am eu cefnogaeth gyson i Dasg y Plant.

## CIC Rhaglen yr Hydref 2015

Nos Iau 1 Hydref 7.00
**Ymweliad â'r Bad Achub**
Cwrdd ger Harbwr Aberystwyth

Nos Iau 15 Hydref 7.00
**Gweilch Dyfi: sgwrs a ffilm**
**yng nghwmni Emyr Evans**
Festri'r Garn

Nos Iau 5 Tachwedd 7.00
**Noson Tân Gwyllt**
Manylion i ddilyn

Nos Iau 19 Tachwedd 7.00
**Gweithdy Drama gyda Catrin Mai**
Festri'r Garn

Nos Iau 3 Rhagfyr 7.00
**Noson Hwyliog Zorbs**
**gyda chriw Coleg y Bala**
Neuadd Rhydypennau

Nos Iau 17 Rhagfyr 7.00
**Cardiau, crefft a chân**
Festri'r Garn

Nos Lun 21 Rhagfyr
**Canu Carolau yng Nghartrefi**
**Tregerddan a Maes Gogerddan**
Manylion i ddilyn

***Croeso cynnes i bawb – oedran Blwyddyn 6+***

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Zoe Jones,
Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid
(zoejones34@gmail.com neu 01970 611510)



Taith gerdded Sant John Roberts –

y cerddwyr yn cael hoe ger Pistyll Cain yng Nghoed y Brenin

## Apêl Ysbyty Shillong

Mae gennym dri llyfr crefyddol yn ein meddiant. Gan fod Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn codi arian at apêl i adeiladu adain newydd i'r ysbyty yn Shillong, tybed a fyddai rhywun â diddordeb yn eu prynu? Y bwriad fyddai iddyn fynd i'r cynnig uchaf. Y llyfrau mewn golwg yw:

*Y Bibl Sanctaidd* (1770) – argraffiad cyntaf Peter Williams

*Geiriadur Charles* (1880) – seithfed argraffiad

*Taith y Pererin* gan John Bunyan.

Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Non Griffiths, os gwelwch yn dda, nongriff@live.co.uk (01654 4781264)

## Taith Gerdded Gofalaeth y Garn

Dydd Sadwrn, 11 Gorffennaf, daeth nifer dda o aelodau'r ofalaeth ynghyd ym mhentref Ganllwyd i ddilyn ychydig o lwybrau a hanes y Sant John Roberts. Nid sant Celtaidd mo'r Sant John Roberts ond fe'i gwnaethpwyd yn sant mor ddiweddar ag 1970. Mae'n cael ei adnabod fel un o Ddeugain Merthyr Pabyddol Prydain. Cafodd ei ddienyddio yn Llundain yn Rhagfyr 1610 a hynny wedi oes fer ond lliwgar iawn.

Cafodd ei eni yn Rhiw Goch, Trawsfynydd, ym 1577, ac yn ôl yr hanes bu'n byw yn y Gelli Goch a Thyddyn Gwladys, sydd bellach yn furddun ym Mharc Coed y Brenin.

Tra oeddem yn cerdded yng Nghoed y Brenin, cawsom gyfle i ddychmygu ychydig o hanes yr ardal, hanes y Rhufeiniaid yn concro ac yn adeiladu Sarn Helen fel priffordd rhwng y de a'r gogledd, sefydlu Abaty Cymer, dinistrio'r fynachlog, ond dysg y mynachod yn parhau ac yn addysgu'r llanc ifanc John Roberts a'i baratoi at astudio'r Gyfraith yn Rhydychen. Er na chwblhaodd John Roberts ei gwrs yn y coleg, fe aeth ymlaen i'r Cyfandir a gwneud ei nofyddiaeth yn Santiago de Compostela tua diwedd 1600, gan fabwysiadu'r enw Fray Juan de Mervina, y Brawd John o Feirionnydd. Ef oedd y mynach cyntaf i ddychwelyd i Loegr ar ôl i Harri'r VIII gau'r mynachlogydd. Bu yn y carchar sawl gwaith ac fe'i restiwyd ymhlith eraill yn dilyn hanes Guto Ffowc. Ei brif gyfraniad oedd helpu'r tlodion yn Llundain yng nghyfnod y Pla Du, ac roedd yn uchel iawn ei barch gan y tlodion yn Llundain oherwydd hynny.

Yn ystod ein taith cawsom gyfle hefyd i weld Rhaeadr Mawddach a Phistyll Cain ynghyd ag olion gweithfeydd aur yn yr ardal.

Wedi dychwelyd i'n ceir yn y Ganllwyd aethom yn ein blaenau i weld man geni John Roberts yng Ngwesty Rhiw Goch, a threulio orig o fyfyrio yn yr ystafell a neilltuwyd iddo yn y gwesty, cyn mwynhau paned wedi'r holl gerdded.

*Dilwyn a Carys Jones*

## Ordeinio i'r Weinidogaeth



Prynhawn Sul, y 15fed o Dachwedd, bydd un o blant y Garn, Nerys Ann Brown, yn cael ei hordeinio i'r weinidogaeth yn Eglwys Gadeiriol Perth, yn yr Alban.

Mae Nerys yn gwerthfawrogi ac yn diolch am y fagwraeth a gafodd yng Nghapel y Garn, yn yr Ysgol Sul, oedfaon y plant, yr Ysgol Gân, y Gymanfa Ganu a'r Cwrdd Cystadleuol ac ati. Bedyddiwyd hi gan y Parchedig D. R. Pritchard ac ef hefyd a'i derbyniodd hi a'i brawd, Dafydd Rhys, yn gyflawn aelodau. Priodwyd hi â David Brown gan y Parchedig Elwyn Pryse ac fe ddaethon nhw â'u meibion, Ewan a Sean, yn ôl i'r Garn yn eu tro i gael eu bedyddio gan y Parchedig R. W. Jones. Ganwyd y ddau yn Stirling, ond wedi symud i Dunblane, ymaelododd y teulu yn Eglwys St Mary, gan ymgolli'n llwyr yng ngwasanaeth yr Eglwys a'r gymuned.

Yr haf yma, wedi ugain mlynedd, fe roddodd Nerys y gorau i'w swydd fel darlithydd Cymraeg Canol yn yr Adran Geltaidd ym Mhrifysgol Caeredin ac fe gafodd ei gwneud yn gymrawd ymchwil er anrhydedd yn y Brifysgol. Mae'n edrych ymlaen at wasanaethu fel ciwrad yn Eglwys St John yn Perth am y ddwy flynedd nesaf ac yn gofyn i chi yn garedig i gyd i gofio amdani yn eich gweddïau.

## *Trip Ysgol Sul*

Ar ddiwedd tymor yr haf aeth teuluoedd a ffrindiau Ysgol Sul Bow Street am eu trip blynyddol, gan ymweld unwaith eto â chanolfan chwarae Quackers y tu draw i Raeadr, ar ôl cael cymaint o hwyl yno'r llynedd. A'r un fu'r hanes eleni, gyda'r tywydd braf yn golygu bod digon o gyfle i chwarae ar y ceir ac ati y tu allan yn ogystal ag ar y sleidiau mawr ac yn y pyllau peli y tu mewn. Cafwyd cinio blasus, a hufen iâ i bawb, wrth gwrs, ar ddiwedd y prynhawn. Mae joio yn waith llwglyd! Diolch yn fawr i bawb am y cwmni, ac i Ysgol Sul Bow Street am eu haelioni. Rydyn ni'n edrych ymlaen at y trip y flwyddyn nesaf yn barod!

*Geraint, Lleucu a Gruffydd, Tyddyn Llwyn, Llandre*

Dyma'r trefniadau ar gyfer tymor yr hydref:

mis Hydref: cwrdd yng Nghapel Noddfa, ac eithrio 11 Hydref, pan fydd y plant yn cymryd rhan yn y Gwasanaeth Diolchgarwch yn y Garn;

mis Tachwedd: cwrdd yng Nghapel y Garn;

mis Rhagfyr: cwrdd yng Nghapel Noddfa, gyda'r gwasanaeth Nadolig yn cael ei gynnal yno ar 20 Rhagfyr.

Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd am 10 o'r gloch. Croeso i blant newydd o bob oed – a'u rhieni – a chroeso cynnes hefyd i unrhyw wirfoddolwyr a hoffai gynnig helpu.

## Y Ras

Ap Cristnogol Gymraeg yw 'Y Ras', wedi ei noddi gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru! Dyma'r ap cyntaf o'i fath, a gobeithio bydd rhywbeth ynddo i blesio pawb!

Mwynhewch storïau amrywiol, blogiadau difyr, ac erthyglau diddorol ar ddolen y Blog. Ond peidiwch â mwynhau gwaith pobl eraill yn unig – cyfrannwch!

Treuliwch amser gyda Duw, yn ei Air ar y ddolen Defosiynau. Gwnewch yn siŵr nad ydych chi'n colli dim gyda'r ddolen Digwyddiadau! A mwynhewch y gerddoriaeth, fideos, pregethau a sgyrsiau ar y ddolen Sain.

Os hoffech chi gyfrannu at ddeunydd 'Y Ras' neu wybod mwy, cysylltwch drwy ebostio: yrasap10@gmail.com.

Gallwch gael yr ap ar: http://get.theapp.co/591c

## *Capel y Garn*

Llongyfarchiadau calonnog i:

ieuenctid yr eglwys ar eu llwyddiant yn eu harholiadau yn ystod yr haf, a phob dymuniad da i Gwern ar ei gwrs Dadansoddi Perfformiad Chwaraeon ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ac i Iestyn ar ei gwrs Peirianneg ym Mhrifysgol Abertawe;

Dilys a Vernon Jones ar enedigaeth gorwyr, Osian Wyn, mab bach Deian a Delyth;

James McCann, Tŷ Capel, ar ei benodiad yn ddarlithydd rhan-amser yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth;

Yr Athro Gruffydd Aled Williams ar gyhoeddi ei gyfrol bwysig a dadlennol, *Dyddiau Olaf Owain Glyndŵr* (Y Lolfa).



Bedydd Now Dafydd, mab bach Owain a Lowri Schiavone, brawd Llew a Moi, ac ŵyr Delyth Jones, yng Nghapel y Garn fore Sul, 20 Medi.

## Hydref

*Blaenor y Mis: Erddyn James*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Eddie T. Jenkins*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa (ac eithrio 11 Hydref)*

**4** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch
Oedfa'r hwyr yng Nghapel y Garn am 5 o'r gloch
dan arweiniad y Parch Elwyn Pryse

7 Oedfa Ddiolchgarwch Chwiorydd y Garn
am 2.30 o'r gloch

**11** Oedfa Ddiolchgarwch yr Ofalaeth dan arweiniad y Bugail
am 10 o'r gloch
Bydd plant yr ysgol Sul yn cymryd rhan yn y gwasanaeth
Casgliad tuag at Water Aid

16 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Noson agoriadol yng nghwmni Elvey MacDonald

**18** Bugail
Oedfa gymun yn y bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

**25** Mr Arwyn Pierce

Adran Diwinyddiaeth Graddedigion Prifysgol Cymru

Cynhelir darlith ar y cyd â'r Adran Athroniaeth yn y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth, dydd Gwener, 23 Hydref 2015, am 3 p.m.

Darlithir gan Robert Pope, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ar y testun 'Diwinyddiaeth J. R. Jones'

Croeso i bawb

## Tachwedd

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Dewi G. Hughes*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

| | |
|---|---|
| **1** | Parch Adrian P. Williams<br>Noddfa'n cydaddoli yn y Garn |
| 4 | Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch<br>Ymweld ag Arddangosfa Philip Jones Griffiths<br>'Ffocws Cymreig ar Ryfel a Heddwch'<br>Oriel Gregynog, Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| **8** | Parch Ddr John Tudno Williams |
| **15** | Bugail<br>Oedfa gymun yn y bore |
| **22** | Parch Ddr Goronwy Prys Owen |
| 23 | Pwyllgor Eglwys y Garn am 7 o'r gloch |
| 27 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>'Cofio John' – noson deyrnged i John Rowlands<br>Cadeirydd: Yr Athro Gruffydd Aled Williams |
| 28 | Bore Coffi yn y festri, 10 tan 12 o'r gloch<br>Trefnir gan Gymdeithas y Chwiorydd er budd elusennol |
| **29** | Oedfaon i'w trefnu |

## Rhagfyr

*Blaenor y Mis: Eddie T. Jenkins*

*I gyfarch wrth y drysau: D. Elystan Morgan / Marian B. Hughes*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa*

2 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
'Paratoi ar gyfer y Nadolig'

**6** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch
Oedfa'r hwyr yng Nghapel y Garn am 5 o'r gloch
dan arweiniad Miss Beti Griffiths

10 Cyngerdd Nadolig Ysgol Rhydypennau
yng Nghapel y Garn am 6.30 o'r gloch

11 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Dathlu'r Nadolig' gydag Alan, Geraint ac Alun

**13** Oedfa Gymun Nadolig yr Ofalaeth
dan arweiniad y Bugail am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at ginio Nadolig elusennol Aberystwyth

**20** Gwasanaeth Nadolig y Plant
Capel Noddfa am 10 o'r gloch

Gwasanaeth Nadolig 'Y Gair a'r Geiriau'
Capel y Garn am 5 o'r gloch

25 Oedfa gymun deuluol ar fore'r Nadolig
dan arweiniad y Bugail am 9 o'r gloch

**27** Parch J. E. Wynne Davies
Oedfa'r bore yn unig am 10 o'r gloch

## *Carol Plygain*

Dewch allan, wŷr duwiol, o'r tai yn blygeiniol,
Mae gwledd yr Anfeidrol yn awr ar y bwrdd,
Ond nid ydyw seren danbeitiaf yr wybren
Yn aros uwch talcen hynafol Tŷ Cwrdd;
Dilynwch y golau hyd gyntedd y siopau
Rhwng sbwriel y biniau a llygredd y llawr,
Cans yno mae'r Iesu dan garbod yn cysgu
A heb ymgeleddu yng nghryndod y wawr.

O'i hir ddiystyru heb groeso 'run llety
Gan fynych newynnu, cyfodwch y Crist!
A phwythwch archollion lle dyrnwyd yr hoelion
Gam rym y morthwylion ar nawnddydd mor drist;
Gristnogion addolgar, annheilwng ein galar
Â dagrau gweddigar glanhawn ni ei gnawd,
Mae'r gwaed nawr yn ceulo, a'r corff yn ystwytho
Fel palmwydd ei henfro yn barod i'w rawd.

Awn allan i'r bore a'r Crist ar ein 'sgwyddau,
Mae gwreiddyn mab Jesse a'i flagur yn fyw!
Efe yw'r goleuni sy'n gloywi'n ffenestri
Gan agor y llenni fu'n cuddio ein Duw.
Bu angau'n fargeiniwr dros waeledd ein cyflwr
A throi yn goncwerwr waradwydd y Groes;
Cydganwn Hosanna ac un Alelwia
I'r Llaw a'n tywysa drwy gaddug ein hoes.

*Vernon Jones*

*Diolch yn fawr iawn i Vernon am ei ganiatâd i gyhoeddi'r garol hon, a ddaeth yn agos iawn at gipio'r wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod.*

Mae Grŵp Help Llaw Capel y Garn, dan arweiniad Mrs Bethan Jones a Mrs Shân Hayward, wedi bod wrthi'n ddiwyd yn ddiweddar yn cefnogi'r elusen Water Aid. Maen nhw eisoes wedi codi tipyn o arian drwy'r stondin llyfrau ail-law sydd yn y festri, ac mae llond potel o arian mân wedi'i gasglu hefyd – diolch i'r ysgol Sul am eu cymorth gyda hyn.

Sefydlwyd WaterAid yn 1981 ac ers hynny mae'r elusen wedi mynd o nerth i nerth. Ei nod yw sicrhau cyflenwad o ddŵr a chyfleusterau glân a diogel i bawb drwy'r byd benbaladr erbyn 2030. Ar hyn o bryd mae **650 miliwn** o bobl yn byw heb gyflenwad diogel o ddŵr ac mae **1 ym mhob 3** o drigolion y byd heb dŷ bach cyfleus.

Drwy gyflenwi tapiau dŵr a thoiledau, ymgyrchu dros newid a gwella sgiliau'r bobl leol, mae WaterAid yn trawsnewid bywydau rhai o drigolion tlotaf y byd. Mae'n gweithio mewn 37 o wledydd – o Ethiopia a Rwanda i Nicaragua, Bangladesh ac India.



*Plant bach yn cario dŵr brwnt mewn bwcedi i'r ysgol mewn ardal wledig ym Madagascar. Ar yr ynys, mae **11.7 miliwn** o bobl heb ddŵr yfed diogel, ac **88%** o'r boblogaeth heb gyfleusterau toiled addas.*



*Casglu dŵr yfed – brwnt – yn Tanzania, lle mae **14 miliwn** heb ddŵr yfed glân a **saith mil** o blant yn marw o ddolur rhydd bob blwyddyn am nad oes ganddynt ddŵr glân a thoiled addas.*

Bydd cyfle i gyfrannu tuag at WaterAid yng ngwasanaeth diolchgarwch yr ofalaeth yng Nghapel y Garn eleni. Rhowch yn hael – gall eich rhodd helpu i drawsnewid bywydau drwy sicrhau bod plant a rhai hŷn yn cael rhai o angenrheidiau mwyaf sylfaenol bywyd, sef dŵr yfed glân a chyfleusterau toiled diogel – pethau rydyn ni'n ffodus yn gallu eu cymryd mor ganiataol.
Diolch am eich cefnogaeth.

## *Newyddion Capel Seion*

**Bore Coffi**

Ar gais plant yr Ysgol Sul yn Seion, cynhaliwyd bore coffi arbennig iawn fore Sul, 19 Gorffennaf, i godi arian at apêl Nepal trwy waith Cymorth Cristnogol, sef un o'r elusennau gwirfoddol sy'n gweithio yno. Y plant fu'n gyfrifol am stondin planhigion gardd ac aelodau eraill yr Ysgol Sul am stondin gacennau a bwydydd eraill. Ar y dechrau cafwyd gwasanaeth o addoliad yng ngofal y plant a hwy hefyd a groesawodd bawb i'r fenter, gan ddiolch am bob cefnogaeth a chwmnïaeth hyfryd. Ffordd hapus a hwylus iawn o ddod at ein gilydd ar gychwyn gwyliau'r haf.

**Pererindod**

Prynhawn Sul, 23 Awst, daeth y cyfle i ymgynnull wrth y capel, sef man cychwyn ein pererindod flynyddol. Trefnwyd y daith eleni gan William a Valerie Davies, a diolch iddynt am ein tywys i lecynnau diddorol ac amrywiol iawn ac am wneud y gwaith paratoadol ymlaen llaw.

Cyrraedd Abaty Ystrad-fflur yn gyntaf; yna ymlaen i Ganolfan y Barcud yn Nhregaron ac Eglwys Dewi Sant yn Llanddewibrefi. Nid nepell o gartref, ond eto cyfle o'r newydd i ddysgu am gyfoeth hanes y mannau cysegredig hyn. Daeth Lyn Ebenezer i'n cyfarfod yn Ystrad-fflur, gan sgwrsio'n huawdl am hanes a rhamant yr hen abaty.

Mewn hen ysgol y lleolir Canolfan y Barcud, gydag arddangosfa amrywiol a diddorol iawn o hen greiriau hanesyddol. Mary Lewis a gyflwynodd hanes y Ganolfan yn ddifyr iawn inni yno. Daeth y ficer, y Parchedig Dafydd Aeron, i roi hanes Eglwys Llanddewi i ni, a chynhaliwyd gwasanaeth o addoliad yno a nifer o'r pererinion yn cymryd rhan. Gorffennwyd y daith yng Ngwesty'r Talbot yn Nhregaron a phawb yn gwerthfawrogi'r pryd blasus a'r croeso yno.



Y cwmni ar y bererindod yn Eglwys Llanddewibrefi

**Y Danbaid Fendigaid Ann**

**Nos Wener, 9 Hydref 2015**

**Y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
**am 7.30 o'r gloch**

**Pris tocyn: £7**

Y gantores Siân Meinir yn dehongli gwaith yr emynyddes Ann Griffiths. Cyfle i fwynhau ailymgorfforiad o'r perfformiad gwreiddiol gan Lis Hughes Jones, gan ddefnyddio Archif Brith Gof fel ffynhonnell ar gyfer cofio ac ail-greu.
Sesiwn holi ac ateb i ddilyn.



Aelodau Capel Rebohoth ger cofeb Waldo ym Maenclochog

## *Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth*

Croesawyd yr aelodau i festri Capel Rehoboth, Tre-Taliesin, ar ddechrau tymor newydd brynhawn dydd Mawrth, 8 Medi, gan ein llywydd, Eiriona Metcalfe.

Llinos Dafis, Llandre, oedd y wraig wadd, a thrwy gyfrwng sleidiau cafwyd cipolwg ar ei thaith hi a'i gŵr i'r Wladfa ym Mhatagonia. Roeddent wedi ymweld â'r Gaiman, Porth Madryn, Trelew a Threfelin, a diddorol oedd clywed yr hanes a gweld yr enwau Cymraeg sydd wedi goroesi yno, yn enwedig yn y mynwentydd lle cafodd y Cymry eu claddu. Cawsom hanes y cysylltiad teuluol oedd ganddynt â'r Wladfa, sef teulu Eben Morgan, brawd i dad-cu Cynog, a ymfudodd yno yn 1881.

Diolchwyd i Llinos am brynhawn diddorol iawn, a mwynhawyd paned o de ar y diwedd wedi ei baratoi gan Myfanwy Rowlands a Mai Leeding.

## *Taith Flynyddol Capel Rehoboth*

Cafwyd diwrnod llawn a diddorol ddydd Sadwrn, 12 Medi, pan ymwelwyd ag ardal Waldo Williams yn sir Benfro a chael ein tywys o amgylch y sir gan Alun Ifans, awdur y gyfrol *Swyn Sir Benfro*.

Cofeb Waldo ym Mynachlog-ddu oedd y man cychwyn, ac yno cafwyd darlleniad o'r gerdd 'Preseli' gan Bob. Wrth deithio tua'r Efail-wen i gael paned o goffi yng Nghaffi Beca, arhoswyd ger capel Bethel i weld bedd Twm Carnabwth, un o arweinyddion Merched Beca, ac yn Efail-wen gwelwyd y plac i nodi'r fan lle dinistriwyd y tollborth gan Ferched Beca ar 13 Mai 1839. Aethom heibio Elm Cottage, cartref Waldo yn Llandysilio, cyn cael ein tywys i'r ddau gae, Parc y Blawd a Weun Parc y Blawd, lle'r arferai Waldo a'i rieni ymgynnull i eistedd o dan y goeden dderwen. Cafwyd darlleniad o 'Mewn Dau Gae' gan Dilwyn. Roedd perchennog y ddau gae, Vernon fferm y Cross, yno gyda ni a rhannodd nifer o'i atgofion ef am Waldo.

Ar ôl aros wrth Rhosaeron, cartref teuluol Waldo, aed ymlaen i Gapel Blaenconin lle cafwyd croeso gan y gweinidog, Huw George, a seibiant i fwyta ein cinio yn y festri. Ym mynwent y capel hwnnw y claddwyd Waldo yn ymyl ei deulu yn 1971, ac wrth sefyll wrth y bedd cafwyd munud o dawelwch ac yna ddarlleniad o gerdd 'Y Tangnefeddwyr' gan Wyn.

Teithiwyd wedyn i Gapel Millin lle roedd Waldo ar un adeg yn hoff o fwrw'r nos er mwyn medru mynd yn gynnar drannoeth i weld y wawr yn torri ger y dderwen gam ac afon Cleddau-ddu gerllaw. Yma darllenwyd y gerdd 'Cofio' gan Wyn.

Tŷ Cwrdd y Crynwyr yn Aberdaugleddau oedd y lle nesaf i ni ymweld ag ef, ac yma eto cafwyd rhagor o atgofion am Waldo gan un a oedd yn ei adnabod. Cafwyd croeso arbennig yn y Tŷ Cwrdd, ynghyd â phaned o de a bisgedi hyfryd. Oddi yno aethom ymlaen i Hwlffordd i weld y plac sydd tu allan i Archifdy Sir Benfro sy'n nodi mai yn Nhŷ'r Ysgol, Prendergast, y ganwyd Waldo yn 1904 – y tŷ a'r ysgol wedi eu dymchwel, a'r archifdy'n sefyll ar y safle bellach. Erbyn hynny, roedd yn bryd teithio i westy Allt yr Afon yng Nghas-blaidd i fwynhau pryd o fwyd ardderchog. Ond nid oedd gweithgareddau'r diwrnod ar ben, a gyda golau'r dydd yn gwanhau, aethpwyd i olwg Gweun Cas-mael ac yno darllenodd Brian y gerdd i'r Weun. Gwelwyd hen ysgol Cas-mael lle bu Waldo'n brifathro, a hefyd y plac i Evan Rees (Dyfed), y cyn-Archdderwydd, ar sgwâr y pentref. Wedi hynny, ffarweliwyd ag Alun Ifans, a rhaid diolch yn fawr iddo am ddiwrnod addysgol ac arbennig iawn yn sir Benfro, diwrnod a fydd yn aros yn hir yn y cof. Diolch hefyd i Brian a Mai am drefnu'r daith, ac i Brian am yrru'r bws.

*Swper Cynhaeaf Capel y Garn, nos Wener, 18 Medi*



Y plant – a’u rhieni –yn ceisio datrys y cliwiau yn yr Helfa Drysor a baratowyd gan Alan Wynne Jones





Paratowyd y bwyd gan yr aelodau, dan arweiniad Delyth Jones, a chyflwynwyd £300, sef elw'r noson, tuag at gronfa'r ffoaduriaid, drwy Aberaid (Aberystwyth)

Diolch i bawb
am eu haelioni
a'u cefnogaeth







## *Newydd o'r Wasg*

Llawlyfr cryno a chynhwysfawr yn rhoi cefndir pob llyfr yn y Beibl, yn cynnwys lluniau, mapiau a siartiau. Addasiad Cymraeg Eleri Huws o *Candle Bible Handbook*, ac yn ddelfrydol ar gyfer ysgolion, grwpiau astudio a defnydd personol.

Pris: 12.99 (Cyhoeddiadau'r Gair)








Nod *Y Beibl Canllaw* ydi galluogi pobl i ddeall y Beibl yn well. Gwnaed hyn drwy gyfuno testun y Beibl Cymraeg diwygiedig gyda nodiadau ar adnodau, cyflwyniadau i themâu a llyfrau'r Beibl, mapiau, lluniau, mynegai manwl a llawer mwy. Dyma gyfrol sy'n cyfuno testun y Beibl â gwybodaeth fel y gellir ei astudio mewn arddull gyfoes.

Pris: £25 (Gwasg Bryntirion)

Teithiau o gwmpas llefydd ysbrydol o bwys yng Nghymru – rhai traddodiadol, eraill yn annisgwyl ac yn ddewis personol yr awdur. Ceir gwybodaeth am hanes, cymeriadau a naws dangnefeddus mannau arbennig drwy Gymru: o'r Bermo i Fro Gŵyr, ac o Eglwys Gadeiriol Llandaf i 'Wrecsam decaf'. Lluniau trawiadol gan Emyr Young.

Pris: £12.99 (Gwasg Gomer)



## *Pen-llwyn*

A gwyliau'r haf wedi dirwyn i ben, daeth yn amser ailymuno â'r Ysgol Sul unwaith yn rhagor; a dyna fel y bu ar y 6ed o Fedi: daethom at ein gilydd yn oedolion a phlant i ailgydio yng ngwaith yr Eglwys a rhoi llwyfan i'r plant i gymryd at rannau arweiniol y gwasanaeth dan arweiniad ein Gweinidog, y Parch Wyn Morris. Croesawyd pawb yn gynnes i'r oedfa a braf oedd cael cwmni ein Gweinidog gyda ni ar ôl ychydig o seibiant dros wyliau'r haf. Gan mai Megan Fflur a enillodd Dasg Gair o'r Garn y tro diwethaf, llongyfarchwyd hi yn fawr a'i chyflwyno â rhodd o docyn llyfr. Anogwyd pob plentyn i gymryd at y tasgau yma a'u hanfon i mewn yn brydlon.

Thema'r gwasanaeth oedd yr hanes o Efengyl Ioan am Iesu mewn priodas yng Nghana Galilea lle y trodd y dŵr yn win. Dim ond yn yr Efengyl hon y cawn yr hanes penodol hwn. Roedd priodasau dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl yn wahanol iawn i briodasau ein gwlad ni heddiw. Byddai'r cartref ar agor am wythnos gyfan yn croesawu'r ymwelwyr. Tybed pam fod Iesu a'i fam yn wahoddedigion – a oedd cysylltiad teuluol yma? Gwelwn gonsýrn Mair wrth i'r gwin ddod i ben, sefyllfa fyddai'n dwyn sen ar deulu'r priodfab ac yn achos embaras mawr i'r teulu cyfan. Cofiwn i'r Iesu ddod i'r adwy a chyflawni ei wyrth gyntaf oll.

Cawsom ein hatgoffa o'r ffaith: pan mae Iesu yn cyffwrdd â bywydau pobl ei fod yn gwneud gwahaniaeth ac yn troi gofid, yn aml, yn lawenydd, a phrofiad y Cristion ar hyd y canrifoedd yw fod Duw yn gymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder fel bob amser:

> Pan sycho ffynhonnau cysuron y llawr
> Ei heddwch fel afon a lifa bob awr.

Bydded i neges y cyfarfod a'r her agor ein calonnau i wirioneddau'r Gair ddod yn real i bob un ohonom fel y bydd i ni brofi melyster y gwin yn lle'r dŵr.

## *Cwmni Morlan*

Fel rhan o ddigwyddiadau Deg dros Ddeg i nodi dengmlwyddiant y ganolfan, mae Geraint Evans a Gwyn Jenkins wedi llunio cyflwyniad gwreiddiol ar gyfer y Cwmni yn seiliedig ar y Rhyfel Byd Cyntaf.

Bydd y cyflwyniad yn cael ei lwyfannu yn y Morlan nos Sul a nos Lun, 8–9 Tachwedd, am 7.30 o'r gloch. Manylion i ddilyn.

## Atgofion a rannwyd yn yr Arddangosfa Cofio a Myfyrio

Roedd gwahoddiad i'r rhai a ddaeth i weld yr arddangosfa ym mis Tachwedd 2014 i ysgrifennu rhyw atgof o'u hanes teuluol mewn llyfr oedd wedi ei adael yn agored at y diben. Ychydig fentrodd, ond mae'r hyn a gafwyd yn hynod ddiddorol.

**Dilwyn Jones, Tal-y-bont:**
Roedd fy ewythr Lewis John Jones o Aberhosan ar y ffordd i Folkestone i ddal y llong a oedd i'w gludo i Ffrainc ac ymlaen i'r *Front Line*. Roedd y trên yn hwyr ac fe hwyliodd y llong hebddynt. Suddwyd y llong yn y sianel. Daeth cyfle arall i groesi i Ffrainc, ac fe aeth y milwyr ar daith trên i'r drin, ond wrth groesi'r tir gwelsant fod y trigolion lleol yn gwenu ac yn codi eu breichiau. Roedd milwyr hefyd yn gweiddi a dathlu. Roedd y rhyfel drosodd!

**Dewi Hughes, Bow Street:**
Yn ystod cyfnod olaf y Rhyfel Mawr roedd cof plentyn gan fy niweddar dad-yng-nghyfraith, Owen Roberts Hughes, o weld, o'i gartref genedigol, Gwernddwyryd, rhwng Porthmadog a Garndolbenmaen, long ryfel yn y bae, pan oedd David Lloyd George yn ymweld â Chricieth. Roedd Lloyd George yn Brif Weinidog erbyn hynny.

**Jean Davies, Bow Street:**
Roedd fy nhad yn filwr yn y Rhyfel Byd Cyntaf – ymunodd â'r fyddin ar Hydref y 6ed, 1914, yn 16 oed – byddai'n 17 cyn diwedd y mis. Dyma'r geiriau a ymddangosodd o dan lun ohono yn ei 'uniform' yn y *Cambrian News* ar y pryd:

> 'Private Bertie Cameron, Glangro Cottages, Tregaron. The first to join from Tregaron. He was young and entered the Pembrokeshire Yeomanry where he is extremely popular.'

Yn 1916 aeth i wasanaethu yn Salonica gyda'r 10th Hampshire Regiment. Roedd ei reini yn ddiolchgar iddo ddod adre'n ddiogel a dianaf wedi'r dadfyddino ym mis Mai 1919.

**Llinos Dafis, Bow Street:**
Pan ofynnais i fy ewythr, a oedd yn ddeg oed ar y pryd ac yn byw yn Glenview (Y Wern heddiw), sef y tŷ gwaelod un o bentref Bow Street ac felly yr agosaf at Wersylloedd y Tiriogaethwyr, sut roedd e wedi dod i wybod bod y rhyfel wedi torri allan, dywedodd mai'r ffaith bod y Camp (Gwersyll y Tiriogaethwyr) wedi diflannu dros nos oedd yr arwydd cyntaf bod rhywbeth mawr yn digwydd. Roedd y lle yn llawn bwrlwm pan aeth i'r gwely y noson cynt, ond pan gododd yn y bore doedd dim golwg o neb na dim.

Cefais gadarnhad o hynny'n ddiweddar mewn adroddiad yn y *Flintshire Observer* yn dweud bod y 1,000 o ddynion a oedd yn y gwersyll wedi derbyn neges am 6.15 y bore ar Awst 6ed, 1914, ac erbyn 7.15 yr un bore roedd pob dim wedi ei glirio, a'r milwyr ar eu ffordd i faes y gad.

**Delyth Davies, Bryn Siriol, Lluest, Aberystwyth (gynt o Fferyllfa Tal-y-bont):**
Rwyf yn cofio fy mam-gu pan oeddwn yn blentyn yn sôn am gymydog a roddodd ei goes o dan wagen i'w arbed rhag gorfod mynd i'r rhyfel!
Cofiaf hi hefyd yn sôn am ei modryb, a alwai yn Anti Tondu, yn mynd i weld ei meibion a oedd yn ymladd yn Ffrainc. Credais yn ddiweddarach i mi gam-ddeall ond dywedwyd wrthyf wedyn bod perthnasau yn mynd draw i Ffrainc i ymweld â'r milwyr yn y gwersylloedd oedd filltiroedd i ffwrdd o'r ffosydd. Nid oes llawer o sôn am hyn.

**Nest Davies, Penrhyn-coch:**
Remembering my great uncle William, despatch rider in the Leicestershire regiment during WWI.

**Robert Jenkins, Bow Street:**
Roedd tad fy nhad yn yr heddlu milwrol yn Ffrainc a mam fy mam yn nyrsio yno. Roedd hynny'n rhan o'm hetifeddiaeth.

**Mairwen Jones, Penrhyn-coch:**
Bu 'Nhad, sef W. C. Stephens, yn y Rhyfel Cyntaf ond does dim llawer o'r hanes yn dod i'r cof. Er hynny, mae hanes sawl ewythr a fu yn y rhyfel gennyf, ac yn rhan o'r arddangosfa hon.

**Dawn Roberts, Penrhyn-coch:**
Roedd fy nhaid yn y Machine Gun Corps ac fe'i lladdwyd yn Ffrainc, ger Quenchettes Wood, ar Fedi 21ain, 1918.

Lladdwyd ei frawd mewn llong danfor yn y Baltic yn 1916. Mae ei enw ef ar gofeb yn Tallinn, Estonia.


**Miriam Garnett, Penrhyn-coch:**
Roedd fy hen ewythr yn gwasanaethu yn Ffrainc yn y Rhyfel Byd Cyntaf a bu farw yn y Somme ar yr 8fed o Fawrth, 1918. Yn ystod yr haf eleni fe aethom fel teulu i ymweld â'i fedd yn Ffrainc – profiad bythgofiadwy.

**Brodor o Benrhyn-coch:**
My grandfather, Richard Davies, was in the Welsh Fusiliers. He was captured and spent much of the war as a prisoner, I think in Austria. On release he and his fellow prisoners had to march right across Europe back to the coast.

***Cofio'r Rhyfel Mawr / WW1 Remembered 1914–1918***

Mae copïau o'r llyfryn dwyieithog yn rhoi cefndir arddangosfa'r Prosiect Cofio a Myfyrio, manylion y rhai a gollwyd, hanes gwersyll y Tiriogaethwyr ac yn y blaen, yn dal ar gael; pris £2 yr un.

Cysylltwch â Llinos Dafis (01970 828262)
neu Marian B. Hughes (01970 828662)




***Swyddogion yr Ofalaeth***
*Cadeirydd*: Tegwyn Lewis, Madog
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH;
johnleeding@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **6 Rhagfyr**:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
☎01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
☎01970 828662
marian_hughes@btinternet.com